**Deddf yr Economi Ddigidol 2017: Y wybodaeth ddiweddaraf a'r camau nesaf**

**Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru Mehefin 2017**

**Diben**

1. Mae'r papur hwn yn crynhoi goblygiadau Deddf yr Economi Ddigidol 2017 mewn perthynas â rhannu data.
2. Gofynnir i Bwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru nodi'r darpariaethau ac ystyried pa feysydd a allai fod yn feysydd â blaenoriaeth ar gyfer defnyddio'r pwerau newydd, yn enwedig y rhai ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus neu gefnogi ymchwil ac ystadegau gwladol.

**Cefndir**

3. Cyflwynwyd Bil yr Economi Ddigidol gerbron Tŷ'r Cyffredin ym mis Gorffennaf 2016. Mae'r Bil yn deddfu yn y meysydd polisi canlynol:
   a. Seilwaith cyfathrebu electronig, yn enwedig rhwymedigaeth gwasanaeth band eang cyffredinol sy'n cwmpasu 95% o gartrefi yn y DU erbyn 2020;
   b. Cadarnhau oedran er mwyn cyfyngu ar fynediad i bornograffi ar-lein;
   c. Diogelu hawliau eiddo deallusol mewn gohebiaeth electronig;
   ch. Swyddogaethau Ofcom, a'r gydberthynas rhwng Ofcom a'r BBC;
   d. Consesiynau o ran ffi trwydded deledu sy'n gysylltiedig ag oedran;
   dd. Rheoleiddio gwerthu tocynnau ar y rhyngrwyd;
   e. Llywodraeth Ddigidol.
4. Cafodd y Bil Gydsyniad Brenhinol a dod yn Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 cyn diddymu'r Senedd yn ystod Gwanwyn 2017. Gan fod rhai meysydd o gymhwysedd datganoledig o fewn cwmpas y Ddeddf, yn gynharach yn y flwyddyn pleidleisiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i roi cydsyniad deddfwriaethol i Lywodraeth y DU. Ceir testun llawn y Ddeddf yn http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/30/contents/enacted/data.htm
5. Mae darpariaethau'r Ddeddf ar rannu data (gan gynnwys at ddibenion ystadegau ac ymchwil) wedi'u cynnwys yn y pecyn ehangach o fesurau rhannu data a elwir yn Llywodraeth Ddigidol. Mae'r rhain yn caniatáu i Adrannau'r Llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus eraill rannu gwybodaeth at ddibenion gweithredol ar gyfer amcanion penodol fel y'u disgrifir yn yr adran nesaf.
6. Cyn i'r Bil gael ei gyflwyno ym mis Gorffennaf 2016, datblygwyd y gyfres o fesurau Llywodraeth Ddigidol dros gyfnod o dair blynedd, gan gynnwys cam 'llunio polisïau agored' iteraidd, a gydgysylltwyd gan Swyddfa'r Cabinet ac a ddaeth i ben gydag ymgynghoriad cyhoeddus ar wneud defnydd gwell o ddata rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2016.

**Meysydd Llywodraeth Ddigidol**

7. *Darparu gwasanaethau cyhoeddus (rhan 5, Pennod 1)*

Mae hwn yn borth caniataol i alluogi awdurdodau cyhoeddus i rannu data personol ar gyfer amcanion penodol y cytunwyd arnynt gan y Senedd (neu ddeddfwrfeydd datganoledig) er mwyn gwella lles unigolion boed hynny drwy wella gwasanaeth cyhoeddus a ddarperir i unigolion neu gartrefi neu hwyluso'r gwaith o ddarparu budd i unigolion neu gartrefi. Mae'r maes hwn hefyd yn cynnwys mesurau penodol i ganiatáu i awdurdodau cyhoeddus rannu gwybodaeth â darparwyr ynni er mwyn rhoi'r Disgownt Cartrefi Cynnes i dderbynwyr cymwys a helpu i leihau tlodi tanwydd.

Mae'r maes hwn yn cynnwys pwerau datganoledig i Weinidogion Cymru sy'n caniatáu iddynt lunio is-ddeddfwriaeth sy'n diffinio'r amcanion penodol y gellir rhannu data personol er mwyn eu cyflawni a'r sefydliadau a gwmpesir.

8. *Cofrestru sifil (rhan 5, pennod 2)*

Sicrhau ei bod yn haws i'r sector cyhoeddus gael gafael ar wybodaeth cofrestru sifil er mwyn ei gwneud yn haws i ddinasyddion gael gafael ar wasanaethau'r llywodraeth, dileu'r ddibyniaeth bresennol ar dystysgrifau papur, a lleihau'r risg o dwyll gan ddefnyddio tystysgrifau papur. Mae hyn yn cynnwys rhannu data gan swyddogion cofrestru sifil yng Nghymru.

Mae'r pwerau hyn yn bwerau caniataol ond bydd y Swyddogion Cofrestru Sifil yn parhau i fod â'r awdurdod i benderfynu p'un a ddylent rannu'r data at y dibenion arfaethedig ai peidio.

9. *Twyll a dyledion (rhan 5, pennod 3 a phennod 4)*

(i) gwella prosesau rhannu gwybodaeth er mwyn mynd i'r afael â thwyll yn erbyn y llywodraeth drwy sicrhau y gall awdurdodau cyhoeddus a enwir gael gafael ar ddata yn gyflymach er mwyn treialu ffyrdd o atal twyll yn erbyn y sector cyhoeddus a mynd i'r afael ag ef; a (ii) galluogi awdurdodau cyhoeddus a enwir i rannu data ar unigolion/busnesau sydd â dyledion lluosog i'r llywodraeth er mwyn rhoi mwy o gymorth i'r rhai sydd â dyledion lluosog neu sy'n ei chael hi'n anodd ad-dalu dyledion a sicrhau bod y sector cyhoeddus yn adennill ac yn rheoli dyledion yn fwy effeithlon.

Nododd Codau Ymarfer drafft ar gyfer y cymalau hyn fod angen cynnal cynlluniau peilot priodol a rhoi mesurau diogelwch priodol ar waith er mwyn sicrhau bod angen rhannu'r data a'i fod o fudd i'r cyhoedd. Mae'r Bennod hon hefyd yn cynnwys y gofyniad i adolygu'r pwerau ar ôl tair blynedd.

10. *Ystadegau* (*rhan 5, pennod 7*)

Diwygio Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 drwy ddiddymu'r fframwaith llafurus presennol ar gyfer rhannu gwybodaeth ystadegol a rhoi fframwaith newydd yn ei le sy'n rhoi hawl statudol i Awdurdod Ystadegau'r DU (h.y. SYG ar gyfer gweddill y testun hwn) weld gwybodaeth a ddelir gan Adrannau'r Llywodraeth, cyrff cyhoeddus eraill, elusennau a busnesau mawr/canolig, at ddibenion ystadegau ac ymchwil. Bydd hyn, er enghraifft, yn helpu i gynhyrchu gwell ystadegau ar y boblogaeth gan gynnwys drwy unrhyw gyfrifiadau ac ystadegau economaidd yn y dyfodol drwy sicrhau ei bod yn haws cael gafael ar ddata am fusnesau.

Ar gyfer awdurdodau cyhoeddus (adran 80, sy'n diwygio adran 45C o Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007), mae'r bennod yn darparu pwerau caniataol i roi data SYG ond mae hefyd yn rhoi hawl i SYG ofyn am y wybodaeth hon drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig. Yn ogystal â gofyn am ddata, gall yr hysbysiad hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau ymgynghori â SYG cyn newid eu prosesau data. Mae'n rhaid i SYG ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn cyflwyno hysbysiad i gyrff cyhoeddus yng Nghymru.

Ar gyfer busnesau canolig neu fawr neu elusennau ("ymgymeriadau", adran 80, sy'n diwygio adran 45D o Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007), mae'r bennod yn rhoi hawl i SYG ofyn am ddata drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig. Yn ogystal â gofyn am ddata, gall yr hysbysiad hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r ymgymeriadau ymgynghori â SYG cyn newid eu prosesau data.

Mae'r bennod hon hefyd yn cynnwys y pŵer (adran 81) i Awdurdod Ystadegau'r DU drosglwyddo data a ddelir ganddo ac mae wedi'u cael gan bartïon eraill i Weinyddiaethau Datganoledig at ddibenion ymchwil ac ystadegau, gyda chaniatâd y cyflenwyr data ffynhonnell.

11. *Ymchwil* (*rhan 5, pennod 5*)

Sefydlu porth cyfreithiol, caniataol newydd i awdurdodau cyhoeddus rannu gwybodaeth ddienw ag ymchwilwyr achredig at ddibenion ymchwil er budd y cyhoedd, drwy drydydd parti dibynadwy sy'n prosesu, cysylltu/paru setiau data lle y bo angen, ac yn darparu amgylcheddau mynediad diogel ar gyfer gwaith dadansoddi.

Awdurdod Ystadegau'r DU yw'r corff achredu, a bydd yn gyfrifol am achredu proseswyr, ymchwilwyr a phrosiectau ymchwil, gan adeiladu ar y fframweithiau a sefydlwyd eisoes sy'n cefnogi'r cynllun Ymchwilwyr Cymeradwy. Mae'r fframwaith hwn yn cefnogi gwaith Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru a gweithrediadau tebyg ledled y DU.

**Gweithredu: Codau ymarfer a materion trosiannol**

12. Mae a wnelo'r prif feysydd o weithgarwch cyn gweithredu yn ystod gweddill 2017 â'r codau ymarfer sy'n sail i'r gwahanol feysydd. Ategir pob maes yn y pecyn Llywodraeth Ddigidol gan godau ymarfer a fydd yn nodi'r egwyddorion lefel uchel y bydd y fframweithiau perthnasol yn gweithredu yn unol â hwy.

13. Cyhoeddwyd drafftiau enghreifftiol o'r codau ym mis Hydref yn ystod cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin. O dan y Ddeddf mae'n ofynnol cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar y codau cyn penderfynu'n derfynol arnynt, gan gynnwys â Gweinidogion Cymru. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, cyflwynir y codau drafft gerbron y Senedd i'w hystyried ar ddechrau'r hydref, a disgwylir iddynt fod yn weithredol erbyn diwedd 2017.

14. Ar ôl i'r Senedd gytuno ar y codau ymarfer, ac ar ôl i holl ddarpariaethau'r meysydd yn y ddeddfwriaeth gael eu rhoi ar waith, bydd y fframweithiau newydd yn gyfreithiol weithredol.

**Llywodraeth Cymru**

**Mehefin 2017**